**Yr amseroedd y mae'r drwydded yn caniatáu cynnal gweithgareddau trwyddedadwy**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**CHWARAEON DAN DO**
**CERDDORIAETH FYW**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO**

| | |
|---|---|
| **LLUN – SAD:** | **1000 – 2400 yn ddyddiol** |
| **SUL:** | **1100 – 2330** |

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS**

**CYFLENWI ALCOHOL**

| | |
|---|---|
| **LLUN – IAU:** | **1000 – 2400 yn ddyddiol** |
| **GWE a SAD:** | **1000 – 0100** |
| **SUL:** | **1100 – 2330** |

**AMSERAU ANSAFONOL**
**Sul a Llun ar benwythnosau Gwyl y Banc yn mis Mai, Gwyl y Banc Sulgwyn, Gwyl y Banc Awst a Gwyl y Banc Pasg, Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan; Adloniant (fel y manylir uchod) tan 2400. Darparu Lluniaeth Poeth yn Hwyr yn y Nos a Cyflenwi Alcohol tan 0100.**
**Noswyl Calan; O ddechrau oriau Noswyl Calan tan ddiwedd oriau Dydd Calan**

**Oriau agor y safle**

| | |
|---|---|
| **SUL:** | **0700 – 2400** |
| **LLUN – IAU:** | **0700 – 0030 yn ddyddiol** |
| **GWE a SAD:** | **0700 – 0230** |

**I gau am 0130 y bore yn dilyn pob Sul a Llun ar benwythnosau Gwyl y Banc yn mis Mai, Gwyl y Banc Sulgwyn, Gwyl y Banc Awst a Gwyl y Banc Pasg.**
**Tan 0130 bob Noswyl Nadolig a Dydd San Steffan.**
**O ddechrau oriau Noswyl Calan ac i gau ar ddiwedd oriau Dydd Calan.**

**Os yw'r drwydded yn caniatáu cyflenwi alcohol, a yw hyn yn golygu ar gyfer yfed ar y safle neu oddi yno**

**AR AC ODDI AR Y SAFLE**

**Atodlen 2 – Amodau sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Weithredu, Cyfarfod a gynhaliwyd gydag S.A. Brain & Co Ltd (3ydd Tachwedd 2008) a Gwrandawiad Trwyddedu (17eg Tachwedd 2008).**

**<u>Cyffredinol – pob un o'r pedwar amcan trwyddedu</u>**
Mae'r trwyddedai'n cadw'r hawl i symud offer tân, peiriannau AWP, y peiriant sigaréts a/neu wrthrychau tebyg all gael effaith andwyol ar allu unigolion ar y safle i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc.

**<u>Atal troseddau ac anhrefn</u>**
Yr holl boteli a gwydrau i'w symud o ardaloedd cyhoeddus cyn gynted â'u bod yn wag neu'n segur.
Ni chaniateir nosweithiau hollgynhwysol neu ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol eraill.
Bydd y Goruchwyliwr Safle Dynodedig neu aelodau staff enwebedig yn cerdded y safle a'r ardaloedd allanol yn rheolaidd pan fyddant yn cael eu defnyddio.

**<u>Diogelwch cyhoeddus</u>**
Mae cyfarpar cymorth cyntaf digonol ar gael ar y safle.
Bydd y staff yn galw am dacsi ar gais cwsmer.

**<u>Atal niwsans cyhoeddus</u>**

Drysau a ffenestri i'w cadw ar gau yn ystod cyfnodau o adloniant wedi'i reoleiddio ac eithrio ar gyfer cyrraedd a gadael.
Ni fydd poteli gwydr yn cael eu tywallt i'r biniau y tu allan i'r safle rhwng 2200 ac 0800.
Ni chaniateir chwarae cerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio yng ngerddi'r safle.
Arddangosir hysbysiadau amlwg, clir a darllenadwy ger pob mynedfa'n gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion y trigolion lleol a gadael y safle a'r ardal yn dawel.

**<u>Amddiffyn plant rhag niwed</u>**

Ni chaniateir plant heb gwmni oedolyn ar y safle.
Caniateir plant sydd yng nghwmni a than oruchwyliaeth oedolyn tan 2200.
(Mae'r amod uchod wedi'i ddiddymu – gweler Atodlen 3).

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

Yn dilyn mân amrywiad a gyflwynwyd 5.4.2018 mae'r amod (uchod) dan Amddiffyn plant rhag niwed -

"Caniateir plant sydd yng nghwmni a than oruchwyliaeth oedolyn ar y safle tan 2200' wedi'i ddiddymu a'i ddisodli gyda'r canlynol:

**<u>Amddiffyn plant rhag niwed</u>**

Ni fydd unrhyw adloniant ar y safle a fyddai'n anaddas i blant ar unrhyw adeg.

